



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adolygiad o Apwyntiadau Dilydol Cleifion Allanol – Aseiad Cynnydd – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Blwyddyn archwilio: 2016

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 437A2017



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru ar swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Andrew Doughton oedd y sawl a gyflawnodd y gwaith hwn.

Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd i ymateb i argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad yn 2015, ond bod angen iddo ddal i wella'r ffordd y mae'n nodi risgiau clinigol a digwyddiadau, cyflymu'r broses o wella gwasanaethau a lleihau'r ôl-groniad o apwyntiadau sy'n wynebu oedi.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Ein canfyddiadau	7
Argymhellion	8

Atodiadau

Atodiad 1 – y cynnydd a wnaeth y Bwrdd Iechyd ers ein hargymhellion yn 2015	9
---	---

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae gwasanaethau cleifion allanol yn gymhleth ac aml-haenog ac maent yn chwarae rhan hollbwysig yn llwybrau gofal cleifion. Mae perfformiad gwasanaethau cleifion allanol yn cael effaith sylweddol ar amgyffrediad y cyhoedd o ansawdd, ymatebolrwydd ac effeithlonrwydd cyffredinol byrddau iechyd.
- 2 Bydd adrannau cleifion allanol yn gweld mwy o gleifion bob blwyddyn nag unrhyw adran arall o'r ysbyty, gydag oddeutu tair miliwn o ymweliadau gan gleifion bob blwyddyn¹, mewn amryw o leoliadau ledled Cymru. Apwyntiad dilynol yw ymweliad ag adran cleifion allanol yn dilyn ymweliad cychwynnol neu ymweliad cyntaf.
- 3 Dros yr 20 mlynedd diwethaf, apwyntiadau dilynol i gleifion allanol fu oddeutu tri chwarter y gweithgarwch yn ymwneud â chleifion allanol ledled Cymru. Apwyntiadau dilynol cleifion allanol yw'r rhan fwyaf o'r holl weithgarwch cleifion allanol ac mae'n bosibl iddynt gynyddu ymhellach yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio a chanddi o bosibl gyflyrau cronig a chyd-afiachedd cynyddol. Nid yw apwyntiadau dilynol sy'n rhan o'r pecyn o driniaethau ei hun, er enghraifft, i gymryd meddyginiaeth, neu i adolygu cyflwr y claf, yn destun targedau amseroldeb a osodir gan Lywodraeth Cymru. Yn lle hynny, caiff y rhain eu rheoli yng nghydestun canllawiau clinigol a dyddiadau targed a bennir yn lleol ar gyfer apwyntiadau dilynol.
- 4 Er mis Ionawr 2015, bu'n ofynnol i bob bwrdd iechyd gyflwyno adroddiad misol i Lywodraeth Cymru yn nodi nifer y cleifion a oedd yn aros ar ddiwedd pob mis (yn wynebu oedi) am apwyntiad claf allanol dilynol, yn seiliedig ar eu dyddiad targed². Fel rhan o'i Fframwaith Canlyniadau GIG 2016-17³, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnwys targed canlyniadau diwygiedig i leihau nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad cleifion allanol dilynol sydd wedi mynd y tu hwnt i'r dyddiad targed y cytunwyd arno.
- 5 Fel rhan o raglen archwilio 2015 cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad o apwyntiadau dilynol cleifion allanol ar draws y saith bwrdd iechyd yng Nghymru. Ceisiai'r adolygiad ateb y cwestiwn 'A yw'r Bwrdd Iechyd yn rheoli apwyntiadau dilynol i gleifion allanol mewn modd effeithiol?'
- 6 Cyflwynom adroddiad ar ein canfyddiadau ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) ym mis Hydref 2015 a daethom i'r casgliad: 'Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu niferoedd cynyddol o achosion o oedi mewn perthynas ag apwyntiadau dilynol i gleifion ac nid yw'n gwbl ymwybodol o'i risg gwasanaeth clinigol, ond mae'n dechrau cynllunio i foderneiddio ei wasanaethau i gleifion allanol.' Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

¹ Ffynhonnell: Stats Cymru, data cryno ar gleifion allanol dan ofal meddygon ymgynghorol.

² Y dyddiad targed yw'r dyddiad pryd y dylai'r claf fod wedi cael ei apwyntiad dilynol.

³ Cylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 023

- roedd y Bwrdd Iechyd yn glir am raddau'r galw am apwyntiadau dilynol i gleifion allanol, ond fod angen iddo ddeall risgiau clinigol ac amrywiadau o ran arfer glinigol ar draws safleoedd yn well;
- er bod rhestrau aros am apwyntiadau dilynol yn fwy cywir, roedd gormod o gleifion yn destun oedi, roedd y duedd yn gwaethygu, ac roedd angen atgyfnerthu trefniadau craffu a sicrwydd; ac
- roedd y Bwrdd Iechyd yn datblygu cynllun i wella'r broses o weinyddu apwyntiadau dilynol a moderneiddio ei wasanaethau, ond roedd y broses o newid yn rhy araf.

7 Yn 2015, gwnâi ein hadroddiad yr argymhellion canlynol, a nodir yn [Arddangosyn 1](#).

Arddangosyn 1: argymhellion a wnaed yn 2015

Argymhellion	
Gofynion data Llywodraeth Cymru	
R1	Cydymffurfio â gofynion adrodd Llywodraeth Cymru drwy gyflwyno adroddiadau ar nifer yr apwyntiadau dilynol a drefnwyd ac nas trefnwyd i gleifion allanol, yn unol â thempled diwygiedig Cymru gyfan.
Gwybodaeth i ategu'r broses o wneud penderfyniadau	
R2	Datblygu'r warws gwybodaeth busnes ar gyfer cleifion allanol y mae angen apwyntiad dilynol arnynt drwy: <ul style="list-style-type: none"> • ehangu cwmpas, dyfnder a manylder y wybodaeth sydd ar gael er mwyn sicrhau y gall rheolwyr a staff gael gafael ar wybodaeth weithredol sy'n berthnasol i'w hangen busnes adrannol. • defnyddio'r wybodaeth i leihau amrywiadau clinigol ar draws safleoedd, cyflyrau clinigol ac ymhlith clinigwyr. • defnyddio'r wybodaeth i ddysgu o weithgareddau 2014-15 er mwyn proffilio'r apwyntiadau dilynol nas trefnwyd a'u lleihau. Ceisio deall pam nad oedd y gwaith proffilio fel y disgwyliwyd a chynnwys hyn yn y taflwybrau ar gyfer 2015-16.
Asesu risgiau clinigol a chyflwyno adroddiadau ansawdd	
R3	Nodi cyflyrau clinigol ym mhob arbenigedd lle gallai cleifion ddiodef niwed na ellid ei wyrdroi os bydd oedi wrth drefnu apwyntiadau dilynol. Datblygu ymyriadau er mwyn lleihau'r risg i gleifion â'r cyflyrau hyn sy'n destun oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed ar gyfer apwyntiad dilynol.
R4	Gwella'r broses o gofnodi gwybodaeth am risgiau clinigol mewn perthynas ag achosion o oedi wrth drefnu apwyntiadau dilynol ar gyfer cleifion allanol er mwyn sicrhau'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • y caiff achosion o niwed yn deillio o oedi eu dadansoddi, eu huwchgyfeirio ac y cyflwynir adroddiad arnynt; a • bod gwaith craffu a sicrhau yn canolbwytio ar yr arbenigeddau a'r cyflyrau clinigol risg uchel.

Argymhellion

Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol

- R5 Nodi'r trefniadau a'r adnoddau rheoli newid sydd eu hangen er mwyn cyflymu'r broses o drawsnewid gwasanaethau i gleifion allanol yn yr hirdymor a'u rhoi ar waith, gan gynnwys:
- adnoddau clinigol, gan gynnwys meddygon, nyrsys ac ymarferwyr iechyd cysylltiedig;
 - capasiti a gallu i reoli newid;
 - ymgysylltu'n fewnol ac yn allanol â rhanddeiliaid;
 - capasiti arwain ym maes gofal sylfaenol a gofal cymunedol i helpu i foderneiddio gwasanaethau i gleifion allanol;
 - yr angen i ddechrau ail-ddylunio'r llwybr gofal economi iechyd yn gynnar, a'i roi ar waith ar yr un pryd â chynlluniau gwella eraill; a
 - rhoi'r gwersi a ddysgwyd o brosiectau cysylltiedig diweddar eraill ar waith.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 8 Fel rhan o'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2016, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys gwaith lleoli i olrhain y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i roi sylw i'r argymhellion a wnaed yn 2015 [Adolygiad o Apwyntiadau Dilynol i Gleifion Allanol](#). Dechreuodd y diweddariad hwn ar gynnydd ym mis Tachwedd 2016 gan ofyn y cwestiwn canlynol: **A yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd digonol mewn ymateb i'r canfyddiadau a'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad gwreiddiol?**
- 9 Wrth wneud y diweddariad hwn ar gynnydd, rydym:
- wedi adolygu cyfres o ddogfennau, gan gynnwys adroddiadau i'r bwrdd ac i bwyllgorau;
 - wedi gwneud dadansoddiad manwl iawn o ddata'r Bwrdd Iechyd a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru o safbwynt apwyntiadau dilynol i gleifion allanol; ac
 - wedi cyfweld nifer o staff y Bwrdd Iechyd i drafod cynnydd, y materion cyffredol a heriau i'r dyfodol.
- 10 Mae crynodeb o'n canfyddiadau i'w weld yn yr adran ganlynol gyda gwybodaeth fwy manwl yn cael ei darparu yn [Atodiad 1](#).

Ein canfyddiadau

- Ein casgliadau cyffredinol yw bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd i ymateb i argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad yn 2015, ond bod angen iddo ddal i wella'r ffordd y mae'n nodi risgiau clinigol a digwyddiadau, cyflymu'r broses o wella gwasanaethau a lleihau'r ôl-groniad o apwyntiadau sy'n wynebu oedi.
- I grynhoi, mae statws y cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion blaenorol i'w weld yn [Arddangosyn 2](#).

Arddangosyn 2: statws argymhellion 2015

Cyfanswm yr argymhellion	Gweithredwyd	Yn mynd rhagddo	Yn hwyr	Wedi'i ddisodli
5	1	4		–

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- Gwelsom fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd yn erbyn yr holl argymhellion er nad yw'r gwelliant, mewn rhai meysydd, yn digwydd mor gyflym ag y bwriadwyd yn wreiddiol:
 - roedd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ofynion i gyflwyno adroddiadau am ddata ar apwyntiadau cleifion allanol dilynol heb eu trefnu⁴ ac a oedd wedi eu trefnu⁵ yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Er hynny, peidiodd y Bwrdd Iechyd â chyflwyno'r data am gyfnod rhwng mis Tachwedd 2016 a Mawrth 2017 oherwydd problemau gyda'r data yn dilyn gweithredu System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS) yn Ysbyty Glan Clwyd. Er mis Ebrill 2017 mae'r Bwrdd Iechyd wedi aildechrau cyflwyno manylion llawn. Hefyd, mae'r problemau gyda'r data wedi cynyddu'n sylweddol niferoedd y cleifion yr adroddir eu bod ar y rhestr aros ar gyfer cleifion allanol o 53,383 o gleifion sy'n hwyr yn cael eu gweld i 69,537 o gleifion.
 - mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ehangu'r ffordd y mae'n dadansoddi ac yn delio â gwybodaeth am apwyntiadau dilynol cleifion allanol ac er bod hon yn hysbysu gwelliannau gweithredol, ni chaiff ei defnyddio'n gyson eto i leihau'r amrywiad clinigol amhriodol mewn ymarfer ar draws safleoedd.
 - mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth gliriach o arbenigeddau clinigol sy'n peri'r risg fwyaf o niwed na ellir ei wydroi os bydd oedi wrth drefnu apwyntiadau dilynol, ond nid ar lefel cyflyrau clinigol. Mae dal angen cryfhau'r dulliau o gofnodi gwybodaeth am y cyfryw ddigwyddiadau. Yn fwy

⁴ Heb eu trefnu – cleifion ar y rhestr aros am apwyntiad dilynol ond nad oes ganddynt ddyddiad apwyntiad wedi'i drefnu.

⁵ Wedi eu trefnu – cleifion ar y rhestr aros am apwyntiad dilynol ond sydd wedi cael ddyddiad eu hapwyntiad.

cadarnhaol, mae goruchwyliaeth a sicrwydd ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol yn awr yn cynnwys amrediad ehangach o arbenigeddau.

- mae gwelliannau, effeithlonrwydd gweithredol a buddsoddiadau â ffocws yn arwain at ostyngiad cynyddrannol mewn oedi. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi canolbwyntio ar ôl-groniadau o apwyntiadau sy'n wynebu oedi ond mae angen iddo foderneiddio gwasanaethau o hyd i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol. Bydd hwn yn un o'r gofynion parhaus ac mae'n digwydd mewn nifer fechan o arbenigeddau, ond mae angen iddo ddigwydd ar raddfa fwy, ynghynt a chael ei ysgogi fwy gan gyfranogiad clinigwyr/gwasanaethau.

Argymhellion

- 14 Ni chyflwynom ddim argymhellion ychwanegol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddal i wneud cynnydd i roi sylw i'r argymhellion sydd heb gael eu gweithredu. Mae'r rhain i'w gweld yn [Arddangosyn 3](#).

Arddangosyn 3: argymhellion

Argymhellion o 2015 sy'n dal heb gael eu gweithredu	
Cyflwyno adroddiadau ar apwyntiadau dilynol i gleifion allanol	
R2	Gwella'r amrediad o wybodaeth am berfformiad y cyflwynir adroddiadau rheolaidd arnynt i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion, gan sicrhau ei bod yn rhoi sylw i amrediad ehangach o arbenigeddau ac yn adrodd yn glir ar risgiau clinigol sy'n gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol sy'n wynebu oedi.
Asesu risgiau clinigol	
R3	Nodi cyflyrau clinigol ym mhob arbenigedd lle gallai cleifion ddiodef niwed na ellid ei myndro os bydd oedi wrth drefnu apwyntiadau dilynol. Datblygu ymyriadau wedi'u targedu er mwyn lleihau'r risg i gleifion â'r cyflyrau hyn sy'n destun oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed ar gyfer apwyntiad dilynol.
Llwybrau lefel ar gyfer cyflyrau clinigol	
R4	Fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol, datblygu a gweithredu llwybrau diwastraff ar gyfer cyflyrau clinigol (fel sydd eisoes ar waith ar gyfer Cataractau), er mwyn gwella ansawdd, diogelwch ac effeithlonrwydd y gwasanaeth.
Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol	
R5	Ystyried a nodi'r trefniadau rheoli newid er mwyn cyflymu'r broses o gyflenwi'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol hirdymor a ddylai gynnwys ystyried: <ul style="list-style-type: none">• adnoddau clinigol, gan gynnwys meddygon, nyrsys ac ymarferwyr iechyd cysylltiedig;• y capasiti a'r gallu sy'n ofynnol ar gyfer newid; ac• ymgysylltu'n fewnol ac yn allanol â rhanddeiliaid.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Atodiad 1

Y cynnydd a wnaeth y Bwrdd Iechyd ers ein hargymhellion yn 2015

Arddangosyn 4: Asesiad o gynnydd

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Cyflwyno adroddiadau am apwyntiadau dilynol cleifion allanol			
R1 Cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer adroddiadau, drwy gyflwyno adroddiadau ar nifer yr apwyntiadau dilynol i gleifion allanol a drefnwyd ac nas trefnwyd, yn unol â thempled diwygiedig Cymru gyfan.	Hydref 2015	Gweithredwyd	<p>Adeg yr adolygiad gwreiddiol, nid oedd y Bwrdd Iechyd ond yn cyflwyno adroddiadau ar gleifion nas trefnwyd apwyntiad iddynt yn erbyn gofynion Llywodraeth Cymru i wneud adroddiad ar gleifion y trefnwyd apwyntiad iddynt a chleifion nas trefnwyd apwyntiad iddynt. Erbyn mis Hydref 2015, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd y set ddata lawn ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Ym mis Tachwedd 2016, peidiodd y Bwrdd Iechyd â chyflwyno'r data oherwydd problemau yn dilyn gweithredu System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS) yn Ysbyty Glan Clwyd. Yn sgil gweithredu'r system hon, cafwyd problemau gyda'r data a arweiniodd at dwf sylweddol yn y rhestr aros o gleifion allanol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn awr yn glanhau ac yn dilysu'r data.</p> <p>Deallwn fod y Bwrdd Iechyd wedi ailddechrau cyflwyno'r set ddata lawn o fis Ebrill 2017 ymlaen. Mae'r argymhelliad hwn felly wedi'i gwblhau.</p>

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Cyflwyno adroddiadau am apwyntiadau dilynol cleifion allanol			
<p>R2 Datblygu'r warws gwybodaeth busnes ar gyfer cleifion allanol sydd angen apwyntiad dilynol drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ehangu cwmpas, dyfnder a manylder y wybodaeth sydd ar gael er mwyn sicrhau y gall rheolwyr a staff gael gafael ar wybodaeth weithredol sy'n berthnasol i'w hangen busnes adrannol. • defnyddio'r wybodaeth i leihau amrywiadau clinigol ar draws safleoedd, cyflyrau clinigol ac ymhlith clinigwyr. • defnyddio'r wybodaeth i ddysgu o weithgareddau 2014-15 er mwyn proffilio'r apwyntiadau dilynol nas trefnwyd a'u lleihau. Ceisio deall pam nad oedd y gwaith proffilio fel y disgwylwyd a chynnwys hyn yn y taflwybrau ar gyfer 2015-16. 	Hydref 2015 – Mehefin 2016	Yn mynd rhagddo	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd yn symud i gyflwyno adroddiadau data dyddiol ac amser real. Mae'r rhestr aros ar gyfer apwyntiadau dilynol ar gael ym mhob safle ar borthol adrodd y Bwrdd Iechyd - IRIS. Mae data manwl ar gael ar lefel ymgynghorwyr a chleifion. Er hynny, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn rhannu'r wybodaeth hon gyda chlinigwyr yn rhagweithiol ac felly nid yw, fel mater o drefn, yn hysbysu trafodaethau am amrywiad clinigol ar draws safleoedd a thimau.</p> <p>Er hynny, mae data am apwyntiadau dilynol cleifion allanol yn cael ei ddefnyddio i raddau mwy helaeth ers ein hadolygiad gwreiddiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cefnogi gweithgaredd gwella apwyntiadau dilynol gweithredol y Bwrdd Iechyd a'i ddulliau monitro ar lefel y rheolwyr; a • hysbysu'r gwaith penodol ar arbenigeddau blaenoriaethol y Bwrdd Iechyd (y rheini a nodir gan y Bwrdd Iechyd fel y rhai sydd fwyaf angen eu gwella i leihau'r niwed posibl oherwydd oedi a/neu leihau ôl-groniadau sylweddol).

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Asesu risgiau clinigol a chyflwyno adroddiadau ansawdd			
<p>R3 Nodi cyflyrau clinigol ym mhob arbenigedd lle gallai cleifion ddioddef niwed na ellid ei wyrdroi os bydd oedi wrth drefnu apwyntiadau dilynol. Datblygu ymyriadau wedi'u targedu er mwyn lleihau'r risg i gleifion â'r cyflyrau hyn sy'n destun oedi y tu hwnt i'w dyddiad targed ar gyfer apwyntiad dilynol.</p>	Mawrth 2016	Yn mynd rhagddo	<p>Yn yr adolygiad gwreiddiol yn 2015 gwelwyd mai ychydig o waith a wnâi'r Bwrdd lechyd i bennu proffil risg penodol ar lefel arbenigeddau. Yn hytrach, roedd yn canolbwyntio ar offthalmoleg a hefyd ar ymgyrch gyffredinol i leihau ôl-groniadau a gweithgaredd amhriodol ar draws pob arbenigedd.</p> <p>Nid yw'r Bwrdd lechyd eto wedi gwneud asesiad risg ar gyfer apwyntiadau dilynol cleifion allanol i ganfod y cyflyrau clinigol lle gallai cleifion ddioddef niwed oherwydd oedi cyn cael apwyntiadau dilynol.</p> <p>Er nad ydym wedi gweld dim tystiolaeth o waith ffurfiol i bennu safiad ar draws y gorfforaeth ar risgiau clinigol, mae'n glir bod y Bwrdd lechyd yn canolbwyntio ar amrediad arbenigeddau ehangach gan gynnwys gastroenteroleg, orthopaedeg, offthalmoleg ac wroleg.</p> <p>Rydym hefyd yn ymwybodol bod arbenigeddau a chlinigwyr unigolyn yn dechrau hunanasesu eu risgiau a chymryd camau lleol i wella er mwyn helpu i liniaru'r risgiau a welsant. Mae'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhoi blaenoriaeth i gleifion ag angen brys; a • drwy drafod gyda'r rheolwyr, addas templedi clinigau i leihau'r capasiti ar gyfer cleifion newydd a chynyddu'r capasiti ar gyfer apwyntiadau dilynol. <p>Deallwn nad yw'r systemau ar gyfer codio cleifion allanol a deilliannau cleifion yn ddigon manwl i allu hysbysu adolygiad dadansoddol o lefel risg cyflyrau clinigol. Er enghraifft, nid yw'n hawdd canfod nifer y cleifion sydd â chyflwr penodol ar restr aros o gleifion allanol ar gyfer arbenigedd penodol. O'r herwydd, dylid parhau â'r dulliau ansoddol i asesu lefel risg cyflyrau a fabwysiadwyd eisoes mewn nifer o arbenigeddau.</p>

Argymhelliad	Dyddiad targed ar gyfer gweithredu	Statws	Crynodeb o'r cynnydd
Asesu risgiau clinigol a chyflwyno adroddiadau ansawdd			
<p>R4 Gwella'r broses o gofnodi gwybodaeth am risgiau clinigol mewn perthynas ag achosion o oedi wrth drefnu apwyntiadau dilynol ar gyfer cleifion allanol er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y caiff achosion o niwed yn deillio o oedi eu dadansoddi, eu huwchgwyfeirio ac y cyflwynir adroddiad arnynt; a • bod gwaith craffu a sicrhau yn canolbwyntio ar yr arbenigeddau a'r cyflyrau clinigol risg uchel. 	Rhagfyr 2016		<p>Gwybodaeth am risgiau clinigol</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio Datix i reoli digwyddiadau, ond mae'n anodd ei ddadansoddi i bennu'r proffil risg ar gyfer apwyntiadau dilynol cleifion allanol. O'r cyfweiliadau gwelwn fod y Bwrdd Iechyd yn annog clinigwyr i nodi digwyddiadau cysylltiedig â niwed sydd o bosibl wedi digwydd oherwydd oedi. Fodd bynnag, o'i gymharu â byrddau iechyd eraill yng Nghymru, mae cyfraddau adrodd am ddigwyddiadau'r Bwrdd Iechyd yn isel. Yn y Bwrdd Iechyd, mae'r cyfraddau ar gyfer clinigwyr sy'n adrodd am ddigwyddiadau hefyd yn ymddangos yn isel o'u cymharu â grwpiau staff eraill.</p> <p>Yn absenoldeb gwybodaeth dda am niwed posibl, gallai'r Bwrdd Iechyd fabwysiadu'n fwy eang ddull i 'nodi' cleifion â chyflyrau risg uwch (hy rhai sy'n debygol o gael niwed na ellir ei wyrdroi oherwydd oedi). Gallai hyn helpu i bennu'r cleifion y mae'n rhaid iddynt gael eu gweld erbyn y dyddiad targed ar sail blaenoriaeth glinigol a fyddai yn ei dro yn caniatáu eu blaenoriaethu'n weinyddol. Byddai hyn hefyd yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i ddeall proffil cleifion risg uchel a darparu sicrwydd a thargedu gweithgarwch gwella.</p> <p>Craffu a sicrwydd</p> <p>Saif y cyfrifoldeb goruchwylio ffurfiol gyda'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Mae'r trefniadau craffu wedi cynyddu ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol sy'n wynebu oedi ac mae'n awr yn cynnwys grŵp ehangach o arbenigeddau, gan gynnwys offthalmoleg, wroleg, orthopaedeg a gastroenteroleg.</p> <p>Hysbysir y Bwrdd drwy'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig. Mae hyn yn cynnwys cynnydd cyffredinol ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol hwyr.</p> <p>Bu un o sesiynau datblygu'r Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Hydref 2016 yn canolbwyntio ar broblemau â pherfformiad, gan roi sylw arbennig i ôl-groniadau o apwyntiadau dilynol. Mae'n glir bod y Bwrdd Iechyd eisiau cael cydbwysedd rhwng rhestrau aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth (RTT) a rhestrau aros apwyntiadau dilynol cleifion allanol. Er hynny, nid yw bob amser i'w weld yn ymarferol. Gwelir o'r cyfweiliadau bod cyllid ychwanegol i wella amseroedd mynediad yn tueddu i gael ei flaenoriaethu</p>

			ar ôl-groniadau RTT, er ein bod yn ymwybodol bod apwyntiadau dilynol cleifion allanol wroleg sy'n wynebu oedi hefyd wedi cael eu targedu.
Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol			
R5	Nodi'r trefniadau a'r adnoddau rheoli newid sydd eu hangen er mwyn cyflymu'r broses o drawsnewid gwasanaethau i gleifion allanol yn yr hirdymor a'u rhoi ar waith, gan gynnwys:	Rhagfyr 2016	Yn mynd rhagddo
	<ul style="list-style-type: none"> • adnoddau clinigol, gan gynnwys meddygon, nyrsys ac ymarferwyr iechyd cysylltiedig; • capasiti a gallu i reoli newid; • ymgysylltu'n fewnol ac yn allanol â rhanddeiliaid; • capasiti arwain ym maes gofal sylfaenol a gofal 		<p>Yn ein hadolygiad gwreiddiol yn 2015 fe wnaethom ganfod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod trefniadau gweithredol tymor byr ar waith i ddilysu'n glinigol y rhestr aros gan ddefnyddio cytundeb gwasanaeth lefel uwch lleol gofal sylfaenol am ddwy flynedd, ond nad oedd y rhain mwyach yn lleihau nifer y cleifion oedd yn wynebu oedi; a • bod y Bwrdd Iechyd yn dechrau cynllunio llwybrau gwasanaeth cleifion allanol cynaliadwy hirdymor a bod rhai arbenigeddau eisoes wedi gwneud cynnydd ond fod arafwch y newid a chysondeb modelau gwasanaeth yn peri risg. <p>Yn 2016, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd darged uchelgeisiol i leihau nifer yr apwyntiadau dilynol i gleifion allan sy'n wynebu oedi 75% erbyn Mawrth 2017. Penodwyd ymgynghorwyr rheoli i gyflymu'r broses wella. Roedd eu gwaith yn ymwneud â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • digwyddiad pennu gweledigaeth i bennu'r themâu allweddol i gefnogi gwelliant; a • datblygu ffocws y rheolwyr ar gamau gwella drwy gyflwyno celloedd cynllunio mewn timau, gyda'u gwaith yn cael ei oruchwylio gan grŵp rheoli'r ymgyrch. <p>Ni chyrrhaeddwyd y targed i ddileu nifer y cleifion oedd yn wynebu oedi 75%. Deallwn fod hwn yn gofyn am gyllid ar gyfer sesiynau clinigol ychwanegol, ond nid oedd y cyllid ar gael. Heb y cyllid ychwanegol, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd sicrhau gostyngiad graddol yn nifer y cleifion oedd yn wynebu oedi dros gyfnod o 18 mis.</p> <p>Gwelliant Gweithredol</p> <p>Ym mis Hydref 2016, sefydlodd y Bwrdd Iechyd grŵp gwella apwyntiadau dilynol cleifion allanol. Mae'r grŵp yn canolbwyntio ar bum arbenigedd: offthalmoleg, wroleg, orthopaedeg, gastroenteroleg ac ENT. Mae'n bositif nodi, ym mis Tachwedd 2016, y bu gostyngiad yn nifer y cleifion oedd yn wynebu oedi ym maes wroleg ac offthalmoleg, er bod y rhain yn arbenigeddau risg uchel o hyd. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ganolbwyntio ar welliannau gweithredol yn y ffordd y caiff apwyntiadau dilynol eu rheoli, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gostyngiad o 1% mewn atgyfeiriadau; • targed o 5% ar gyfer apwyntiadau Dim Mynychu neu eu lleihau 50%; • gostyngiad yn nifer yr apwyntiadau y mae'r ysbyty yn eu canslo; ac

<p>cymunedol i helpu i foderneiddio gwasanaethau i gleifion allanol;</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr angen i ddechrau ailddylunio'r llwybr gofal economi iechyd yn gynnar, a'i roi ar waith ar yr un pryd â chynlluniau gwella eraill; a • rhoi'r gwersi a ddysgwyd o brosiectau cysylltiedig diweddar eraill ar waith. 			<ul style="list-style-type: none"> • ail-gydbwyso rhai newydd i adolygu cymarebau. <p>Mae'r dulliau hyn yn debygol o arwain at raddau o effeithlonrwydd; gan ryddhau capasiti.</p> <p>Moderneiddio gwasanaethau</p> <p>Mae gofyn moderneiddio gwasanaethau o hyd i sicrhau bod gwasanaethau'n effeithlon, a hefyd yn addasu i newidiadau yn y galw a'r dewis o driniaethau. Er bod y Bwrdd wedi canolbwyntio'n gadarn ar wella gweithrediadol, rhoddwyd llai o sylw i newid trawsnewidiol mewn modelau cleifion allanol.</p> <p>Cawsom ein cyfeirio at amrywiol ffyrdd o weithio arloesol a/neu newydd, ond gan unigolion awyddus neu dimau bychain y datblygwyd y rhain i raddau helaeth ac mae'r amrywiaeth direswm mewn ymarfer ar draws safleoedd yn parhau.</p> <p>Mae'n addawol bod y Bwrdd lechyd yn dechrau rhoi sylw i'r gofynion hyn ac mae'n canolbwyntio i ddechrau ar newid y gwasanaeth offthalmoleg. Megis dechrau y mae'r gwaith hwn, ond mae wedi dwyn ynghyd ddarparwyr gwasanaethau mewnol ac allanol sydd â phrofiad clinigol, gweinyddol a rheoli ar draws ardal y Bwrdd lechyd i drafod y dewisiadau i'r gwasanaethau ar lefel cyflyrau clinigol. Os yw'r dull hwn yn llwyddiannus, bydd y Bwrdd lechyd yn ystyried cyflwyno hyn i arbenigeddau eraill.</p> <p>Mae gofyn cael modelau gwasanaeth cynaliadwy mwy hirdymor i helpu i sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod modelau gwasanaeth yn cyd-fynd ag aciwtedd anghenion clinigol cleifion; • bod y gweithlu yn mabwysiadu dulliau gweithredu darbodus, gan ddefnyddio'u setiau sgiliau mor effeithiol â phosibl. • bod model y gwasanaeth a model y gweithlu yn fforddiadwy ac yn gadarn. <p>Mae angen i'r Bwrdd lechyd foderneiddio ei wasanaethau ynghynt ac ar raddfa fwy, ar lefel llwybrau cyflyrau clinigol ac arbenigeddau. Mae angen i glinigwyr fod â rhan yn y gwaith o ddylunio gwasanaethau mewn partneriaeth â darparwyr mewnol ac allanol.</p>
---	--	--	---

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru